

**C H A R L E S T H E T H I R D**  
by the Grace of God of the United Kingdom of Great Britain and  
Northern Ireland and of Our other Realms and Territories King, Head  
of the Commonwealth, Defender of the Faith:

TO ALL TO WHOM THESE PRESENTS SHALL COME, GREETING!

**C H A R L E S Y T R Y D Y D D**  
trwy ras Duw, Brenin Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd  
Iwerddon a'n Teyrnasoedd a'n Tiriogaethau Eraill, Pennaeth  
y Gymanwlad, Amddiffynnydd y Ffydd:

I BAWB Y BO A WNELONT Â HYN, HENFFYCH!

Whereas on the 4th June 1885 Her Majesty Queen Victoria granted a Charter constituting and founding a College in the City of Bangor by the name of "The University College of North Wales" having perpetual succession and a common seal, with power to sue and be sued in the said name:

Ar y 4ydd o Fehefin 1885 dyfarnodd Ei Mawrhydi y Frenhines Victoria Siarter yn sefydlu a sylfaenu Coleg yn Ninas Bangor o'r enw "Coleg Prifysgol Gogledd Cymru" gydag olyniaeth dragwyddol a sêl gyffredin, gyda'r grym i erlyn a chael ei erlyn yn yr enw hwnnw:

Whereas in 1922, 1951, 1977 and 1998 Supplemental Charters were granted to the College and in 2007 the name of the College was changed to “Prifysgol Bangor” or “Bangor University”:

Whereas the University presented to Queen Elizabeth the Second a humble Petition that it is desirable that new provision be made with respect to its purposes, proceedings and duties by way of a Supplemental Charter:

WHEREAS on 16th February 2022, Queen Elizabeth the Second was graciously pleased to approve an Order granting a Supplemental Charter to Bangor University;

AND WHEREAS the demise of Her late Majesty occurred before Her warrant could be executed to allow the Supplemental Charter to be passed under the Great Seal to come into legal effect;

AND WHEREAS it is Our desire to bring Her late Majesty’s wishes into effect;

NOW THEREFORE KNOW YE that mindful of Her late Majesty’s wishes, We hereby do confirm the grant of a Supplemental Charter to Bangor University and by virtue of Our Prerogative Royal and of all other powers enabling Us in that behalf, of Our especial grace, certain knowledge and mere motion, do grant and declare by these Presents for Us, Our Heirs and Successors the grant of a Supplemental Charter to Bangor University in the terms set out below:

1. There shall be a body corporate with perpetual succession and a Common Seal by the name of “Prifysgol Bangor” or “Bangor University” (“the University”).
2. The Charter of 1977 (except insofar as it incorporates the University and confers upon it perpetual succession and a common seal) shall be and is hereby revoked but nothing in this revocation shall affect the legality or validity of any act, deed, or thing lawfully done or executed under the provisions of the Charter of 1977.
3. The objects of the University shall be to advance and disseminate learning and knowledge by teaching and research and, by its corporate life as well as its academic work, to enable students to obtain the full advantages of a University education.
4. The University shall have all the powers of a natural person to do all lawful acts that are conducive or incidental to the attainment of the objects of the University, which includes but is not limited to the power to award and revoke

Yn 1922, 1951, 1977 a 1998 rhoddwyd Siarteri Atodol i'r Coleg ac yn 2007 newidiwyd enw'r Coleg i “Prifysgol Bangor” neu “Bangor University”:

Tra bod y Brifysgol wedi deisyf yn wylaidd ar y Frenhines Elizabeth yr Ail ei bod yn ddymunol gwneud darpariaeth newydd mewn perthynas â'i dibenion, ei thrafodion a'i dyletswyddau trwy Siarter Atodol.

GAN FOD, ar 16 Chwefror 2022, y Frenhines Elizabeth yr Ail yn falch iawn o gymeradwyo Gorchymyn yn rhoi Siarter Atodol i Brifysgol Bangor;

A CHAN y bu marwolaeth Ei diweddar Fawrhydi cyn y gellid gweithredu Ei gwarant i ganiatáu pasio'r Siarter Atodol dan y Sêl Fawr gan roi iddi rym cyfreithiol;

A CHAN mai ein dymuniad yw dwyn dymuniadau Ei diweddar Fawrhydi i rym:

YN AWR GWYBYDDER CHWI, o gofio dymuniadau Ei diweddar Fawrhydi, y cadarnhawn drwy hyn roddi Siarter Atodol i Brifysgol Bangor a thrwy rinwedd Ein Huchelfr faint Frenhinol a'r holl bwerau eraill sy'n ein galluogi Ni yn hynny o beth, drwy Ein gras arbennig, y wybodaeth benodol y meddwn arni ac o'n llwyr wirfodd, yn rhoddi ac yn datgan ar ein cyfer Ein Hunain, Ein Hetifeddion a'n Dilynwyr Siarter Atodol i Brifysgol Bangor yn unol â'r telerau a nodir isod:

1. Y bydded corff corfforedig gydag olyniaeth dragwyddol a Sêl Gyffredin o'r enw “Prifysgol Bangor” neu “Bangor University” (“y Brifysgol”).
2. Caiff Siarter 1977 (ac eithrio i'r graddau y mae'n ymgorffori'r Brifysgol ac yn rhoi olyniaeth dragwyddol a sêl gyffredin iddi), ei dirymu drwy hyn, ond ni fydd dim yn y dirymiad hwn yn effeithio ar gyfreithlondeb na dilysrwydd unrhyw weithred, gweithgarwch nac unrhyw beth a wnaed neu a gyflawnwyd yn gyfreithlon o dan ddarpariaethau Siarter 1977.
3. Amcanion y Brifysgol fydd hyrwyddo a lledaenu dysg a gwybodaeth trwy addysgu ac ymchwil a, thrwy ei bywyd corfforaethol yn ogystal â'i gwaith academiaidd, galluogi myfyrwyr i gael manteision llawn addysg Brifysgol.
4. Bydd gan y Brifysgol holl bwerau person naturiol i wneud pob gweithred gyfreithlon sy'n ffafriol neu'n arwain at gyflawni amcanion y Brifysgol, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r grym i ddyfarnu a dirymu graddau a

degrees and other distinctions (including without limitation, diplomas, joint degrees, dual degrees, certificates, fellowships, honorary degrees, honorary fellowships, memberships and associateships) in its own name and/or jointly with other education institutions.

5. The University shall not make any dividend, gift, division or bonus in money to or between any members of Council or officers of the University, except by way of prize, special grant or reward including as payment of reasonable and proper remuneration for goods or services supplied to the University.
6. The official languages of the University shall be Welsh and English.
7. There shall be a council (“the Council”), which shall be the supreme governing body of the University and shall be responsible for the exercise of the University’s powers. The functions of the Council shall include, without limitation:
  - 7.1 the custody and use of the Common Seal;
  - 7.2 the oversight of the management and administration of the revenue and property of the University; and
  - 7.3 oversight of the conduct of the affairs of the University.
8. The Council may delegate all or any of its functions other than:
  - 8.1 the determination of the character and mission of the University, including the appointment of the Vice-Chancellor;
  - 8.2 the responsibility for ensuring the solvency of the University and for safeguarding its assets, including the appointment of auditors, the establishment of an audit committee and the approval of the University’s annual audited accounts; or
  - 8.3 the making of, alteration, amendment or addition to this Our Charter.
9. The Council shall consist of the following persons, namely:
  - 9.1 Up to twelve persons external to the University (“Independent Members”), including the Chair and up to two Pro-Chancellors;
  - 9.2 Two members of the Senate;
  - 9.3 One member nominated by the Academic Staff;
  - 9.4 One member nominated by Non-academic staff;
  - 9.5 The Vice-Chancellor;

rhagoriaethau eraill (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: diplomâu, graddau ar y cyd, graddau deuol, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn ei henw ei hun a/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.

5. Ni fydd y Brifysgol yn rhoi unrhyw ddifidend, rhodd, rhaniad na bonws mewn arian i neu rhwng unrhyw aelodau o’r Cyngor neu swyddogion y Brifysgol, ac eithrio ar ffurf gwobr, grant arbennig neu ddyfarniad gan gynnwys fel taliad cydnabyddiaeth resymol a phriodol am nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i’r Brifysgol.
6. Ieithoedd swyddogol y Brifysgol fydd y Gymraeg a’r Saesneg.
7. Bydded cyngor (“y Cyngor”), a hwn fydd corff llywodraethu goruchaf y Brifysgol a fydd yn gyfrifol am arfer grymoedd y Brifysgol. Bydd swyddogaethau’r Cyngor yn cynnwys, heb gyfyngiad:
  - 7.1 gofalu am y Sêl Gyffredin a’r defnydd ohoni;
  - 7.2 goruchwylio rheolaeth a gweinyddiad refeniw ac eiddo’r Brifysgol; a
  - 7.3 goruchwylio’r ffordd y caiff materion y Brifysgol eu cynnal.
8. Gall y Cyngor ddirprwyo’r cyfan neu unrhyw rai o’i swyddogaethau heblaw:
  - 8.1 penderfynu ar gymeriad a chenhadaeth y Brifysgol, gan gynnwys penodi’r Is-ganghellor;
  - 8.2 y cyfrifoldeb am sicrhau diddyledrwydd y Brifysgol ac am ddiogelu ei hasedau, gan gynnwys penodi archwilyr, sefydlu pwyllgor archwilio a chymeradwyo cyfrifon archwiliedig blynyddol y Brifysgol; neu
  - 8.3 wneud, newid, diwygio neu ychwanegu at y cyfryw Siarter hon.
9. Bydd y Cyngor yn cynnwys y personau canlynol, sef:
  - 9.1 Hyd at ddeuddeg o bobl y tu allan i’r Brifysgol, (“Aelodau Annibynnol”), gan gynnwys y Cadeirydd a hyd at ddau Ddirprwy Ganghellor;
  - 9.2 Dau aelod o’r Senedd;
  - 9.3 Un aelod a enwebir gan y staff academaidd;
  - 9.4 Un aelod a enwebir gan y staff anacademaidd;
  - 9.5 Yr Is-ganghellor;

- 9.6 The Deputy Vice-Chancellor;
- 9.7 The President of the Students' Union; and
- 9.8 One other elected officer of the Students' Union appointed by the executive of that organisation.
10. The term of office of the members referred to in paragraphs 9.1, 9.2, 9.3, and 9.4 shall be for four years and they shall be eligible for reappointment normally for one further period of up to four years, unless the provisions of paragraph 12 apply.
11. The term of office as members of Council of the members referred to in paragraphs 9.5, 9.6, 9.7, and 9.8 shall be for so long as they continue to occupy their respective positions unless removed in accordance with the Ordinances.
12. The Chair shall be eligible for reappointment for one further period of four years, subject always to a maximum period on Council of eight years as Chair.
13. Ten members of Council shall constitute a quorum, of whom a majority shall be Independent Members.
14. There shall be such officers of the University as the Council shall decide, including but not limited to:
- 14.1 The Chancellor, who shall be the ceremonial head of the University; and
- 14.2 The Vice-Chancellor, who shall be the principal academic and administrative officer of the University.
15. The Court of the University ("the Court") shall have such powers and functions as are delegated to it by the Council.
16. There shall be a senate of the University ("the Senate"), which shall be the academic authority of the University subject to the general control and approval of the Council. The Senate shall be given an opportunity of commenting on any proposed alteration to this Our Charter. The Senate may exercise such other functions as may be conferred upon it by the Ordinances.
17. There shall be a union of the students of the University ("Students' Union") which shall conduct and manage its own affairs and funds in accordance with a constitution approved by the Council. No amendment to or rescission of that constitution shall be valid unless approved by the Council.
18. *Suspension, Discipline, Dismissal and Grievances of Staff*
- 9.6 Y Dirprwy i'r Is-ganghellor;
- 9.7 Llywydd Undeb y Myfyrwyr; ac
- 9.8 Un swyddog etholedig arall o Undeb y Myfyrwyr a benodir gan bwyllgor gweithredu'r sefydliad hwnnw.
10. Cyfnod gwasanaeth yr aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 9.1, 9.2, 9.3, a 9.4 fydd pedair blynedd a byddant yn gymwys i'w hailbenodi fel arfer am un cyfnod pellach o hyd at bedair blynedd, oni bai bod darpariaethau paragraff 12 yn berthnasol.
11. Cyfnod gwasanaeth yr aelodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 9.5, 9.6, 9.7, a 9.8 yn aelodau o'r Cyngor fydd cyhyd ag y byddant yn eu swyddi priodol oni bai y collant eu swyddogaeth yn unol â'r Ordinadau.
12. Gellir ailbenodi'r cadeirydd yn Gadeirydd y Cyngor am un cyfnod arall o bedair blynedd, yn amodol bob amser ar uchafswm cyfnod o wyth mlynedd.
13. Bydd deg aelod o'r Cyngor yn ffurfio cworwm, a bydd y mwyafrif ohonynt yn Aelodau Annibynnol.
14. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar ba gyfryw swyddogion yn y Brifysgol i fod yn aelodau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
- 14.1 Y Canghellor, a fydd yn bennaeth seremonïol y Brifysgol; ac
- 14.2 Yr Is-ganghellor, a fydd yn brif swyddog academiaidd a gweinyddol y Brifysgol.
15. Bydd gan Lys y Brifysgol ("y Llys") y pwerau a'r swyddogaethau hynny a ddirprwyir iddo gan y Cyngor.
16. Bydded senedd o'r Brifysgol ("y Senedd"), a honno fydd awdurdod academiaidd y Brifysgol yn amodol ar reolaeth a chymeradwyaeth gyffredinol y Cyngor. Rhoddir cyfle i'r Senedd wneud sylwadau ar unrhyw newid arfaethedig i'r cyfryw Siarter hon. Caiff y Senedd weithredu unrhyw swyddogaethau eraill a roddir iddi gan yr Ordinadau.
17. Bydded undeb myfyrwyr y Brifysgol ("Undeb Myfyrwyr") a fydd yn cynnal ac yn rheoli ei materion a'i chronfeydd ei hun yn unol â chyfansoddiad a gymeradwyir gan y Cyngor. Ni fydd unrhyw newid neu ddirymiad o'r cyfansoddiad hwnnw yn ddilys oni chymeradwyir hynny gan y Cyngor.
18. *Atal, Disgyblu, Diswyddo a Chwynion Staff*

### *Introduction*

18.1 This paragraph 18 relates to the suspension, discipline, dismissal and grievances of staff. Except where indicated to the contrary, this paragraph 18 applies to all members of staff.

### *General Principles of Construction and Application*

18.2 This paragraph 18 and any Ordinances or other rules made under it shall be applied and construed in every case having regard to the following guiding principles:

18.2.1 to ensure that members of academic staff have freedom within the law to question and test received wisdom, and to put forward new ideas and controversial or unpopular opinions, without placing themselves in jeopardy of losing their jobs or any privileges they may have at the University;

18.2.2 to enable the University to provide education, promote learning and engage in research efficiently and economically; and

18.2.3 to apply the principles of justice and fairness.

18.3 Any reference in this paragraph 18 to a provision in an Act of Parliament shall be taken to be a reference to that provision as it may have been amended or superseded from time to time.

18.4 For the purposes of this paragraph 18 the following terms shall bear the following meanings:

18.4.1 “dismissal” shall bear the same meaning as in section 95 of the Employment Rights Act 1996; and

18.4.2 “dismissal by reason of redundancy” shall bear the same meaning as in section 139 of the Employment Rights Act 1996.

18.5 The power to dismiss staff by reason of redundancy, and the Ordinances prescribed in relation to such power, under this paragraph 18 shall not apply to those staff defined in sub-sections (3) to (6) of section 204 of the Education Reform Act 1988 (academic staff appointed prior to, and not promoted after, 20 November 1987) who shall for this purpose continue to be subject to such powers, if any, as applied to them prior to the introduction of the Statute made by the University Commissioners in the exercise of their powers under sections 203 and 204 of the Education Reform Act 1988.

### *Rhagarweiniad*

18.1 Mae'r 18fed paragraff hwn yn ymwneud ag atal, disgyblu, diswyddo a chwynion staff. Ac eithrio lle nodir i'r gwrthwyneb, mae'r 18fed paragraff hwn yn berthnasol i bob aelod o staff.

### *Egwyddorion Cyffredinol Adeiladu a Chymhwysyo*

18.2 Caiff y 18fed paragraff hwn ac unrhyw Ordinadau neu reolau eraill a wneir oddi tano eu cymhwysyo a'u dehongli ym mhob achos gan roi sylw i'r egwyddorion arweiniol a ganlyn:

18.2.1 sicrhau bod gan aelodau staff academaidd ryddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi'r ddoethineb a dderbyniant, ac i gyflwyno syniadau newydd a safbwyntiau dadleuol neu amhoblogaidd, heb roi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu unrhyw freintiau a all fod ganddynt yn y Brifysgol;

18.2.2 galluogi'r Brifysgol i ddarparu addysg, hyrwyddo dysgu a chymryd rhan mewn ymchwil yn effeithlon ac yn ddarbodus; ac

18.2.3 i gymhwysyo egwyddorion cyfiawnder a thegwch.

18.3 Dylid ystyried unrhyw gyfeiriad yn y 18fed paragraff hwn at ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol yn gyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y gall fod wedi ei diwygio neu ei disodli o bryd i'w gilydd.

18.4 At ddibenion y 18fed paragraff hwn bydd yr ystyron a ganlyn i'r termau canlynol:

18.4.1 yr un ystyr fydd i “diswyddo” ag sydd iddo yn adran 95 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996; a

18.4.2 yr un ystyr fydd i “diswyddo drwy golli gwaith” ag sydd iddo yn adran 95 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996; a

18.5 Ni fydd y grym i ddiswyddo staff drwy golli gwaith, a'r ordinadau a ragnodir mewn perthynas â grym o'r fath, o dan y 18fed paragraff hwn yn berthnasol i'r staff hynny a ddiffinnir yn is-adrannau (3) i (6) o adran 204 Deddf Diwygio Addysg 1988 (staff academaidd a benodwyd cyn 20 Tachwedd 1987 ac nas dyrchafwyd ar ôl hynny) a fydd at y diben hwn yn parhau yn ddarostyngedig i'r grymoedd, os o gwbl, a gymhwyswyd iddynt cyn cyflwyno'r Statud a wnaed gan Gomisiynwyr y Brifysgol wrth arfer eu grymoedd o dan adrannau 203 a 204 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988.

### *Suspension*

18.6 The Vice-Chancellor, or other designated person or persons, may suspend any member of staff.

### *Discipline*

18.7 The Vice-Chancellor, or other designated person or persons, may discipline any member of staff.

18.8 Where a staff member has been disciplined pursuant to paragraph 18.7, that staff member may appeal against that decision to a designated person.

### *Dismissal*

18.9 The Vice-Chancellor, or other designated person or persons, may dismiss any member of staff either with or without notice, depending on the circumstances of the case.

18.10 Where a staff member has been dismissed pursuant to paragraph 18.9, that staff member may appeal against the dismissal to a designated person.

### *Grievances*

18.11 Any member of staff may seek redress of any grievances relating to that staff member's employment.

18.12 If the member of staff is dissatisfied with the outcome of a grievance pursuant to paragraph 18.11, that staff member may appeal against that decision to a designated person.

### *Ordinances*

18.13 The Council shall from time to time (following negotiation with the relevant trade unions) make and amend Ordinances specifying designated persons to be appointed and policies and procedures to be followed in the exercise of the powers and duties contained in this paragraph 18, such Ordinances to cover but not be limited to:

18.13.1 Redundancy;

18.13.2 Non-renewal of fixed term contracts and redundancy by way of termination of fixed term funding contracts;

18.13.3 Conduct and other substantial reasons for dismissal;

18.13.4 Capability and performance;

### *Atal*

18.6 Gall yr Is-ganghellor, neu berson neu bersonau dynodedig eraill, atal unrhyw aelod staff o'i waith.

### *Disgyblu*

18.7 Gall yr Is-ganghellor, neu berson neu bersonau dynodedig eraill, ddisgyblu unrhyw aelod staff.

18.8 Pan fo aelod staff wedi'i ddisgyblu yn unol â pharagraff 18.7, caiff yr aelod hwnnw o staff apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i berson dynodedig.

### *Diswyddo*

18.9 Gall yr Is-ganghellor, neu berson neu bersonau dynodedig eraill, ddiswyddo unrhyw aelod staff naill ai gyda rhybudd neu heb rybudd, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

18.10 Pan fo aelod staff wedi'i ddiswyddo yn unol â pharagraff 18.9, caiff yr aelod hwnnw o staff apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i berson dynodedig.

### *Cwynion*

18.11 Caiff unrhyw aelod staff wneud cais i unioni unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chyflogaeth yr aelod hwnnw o staff.

18.12 Pan fo aelod staff yn anfodlon â chanlyniad cwyn yn unol â pharagraff 18.7, caiff yr aelod hwnnw o staff apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i berson dynodedig.

### *Ordinhadau*

18.13 Bydd y Cyngor o bryd i'w gilydd (yn dilyn trafodaeth gyda'r undebau llafur perthnasol) yn gwneud ac yn diwygio Ordinhadau sy'n pennu personau dynodedig i'w penodi a pholisïau a gweithdrefnau i'w dilyn wrth arfer y grymoedd a'r dyletswyddau a gynhwysir yn y 18fed paragraff hwn, gyda'r cyfryw Ordinhadau yn cwmpasu ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

18.13.1 Diswyddiadau;

18.13.2 Peidio ag adnewyddu contractau tymor penodol a diswyddo trwy derfynu contractau cyllido tymor penodol;

18.13.3 Ymddygiad a rhesymau sylweddol eraill dros ddiswyddo;

18.13.4 Gallu a pherfformiad;

18.13.5 Incapacity on health grounds;

18.13.6 Termination of probationary appointments;

18.13.7 Termination on grounds of illegality;

18.13.8 Termination of non-substantive positions;

18.13.9 Staff grievances; and

18.13.10 The Vice-Chancellor.

18.14 If Ordinances have not yet been made by Council on the date this Our Supplemental Charter comes into effect, the powers of discipline, dismissal and the hearing of grievances set out in this paragraph 18 shall be exercised in accordance with the general law and statutory codes of practice until such time as Ordinances are made.

19. The Council may amend, add to, or repeal this Our Charter by a resolution passed at a Council meeting by a majority of not less than three-fourths of those present and voting. Such amendment, addition or repeal shall, when allowed by Us, Our Heirs or Successors in Council, have effect so that this Our Charter shall operate as though it had been originally granted and made as so amended, added to or repealed.

20. Our Royal Will and Pleasure is that this Our Charter shall be construed benevolently and in every case most favourably to the University and the promotion of the objects of this Our Charter.

IN WITNESS whereof We have caused these Our Letters to be made Patent.

WITNESS Ourselves at Westminster the

day of

in the year of Our Reign

18.13.5 Analluogrwydd ar sail iechyd;

18.13.6 Terfynu penodiadau prawf;

18.13.7 Terfynu ar sail anghyfreithlondeb;

18.13.8 Terfynu swyddi nad ydynt yn rhai parhaol;

18.13.9 Cwgnion staff; ac

18.13.10 Yr Is-ganghellor.

18.14 Os nad yw Ordinhadau wedi'u gwneud eto gan y Cyngor ar y dyddiad y daw'r Siarter Atodol hon o'n heiddo i rym, arferir y pwerau disgyblu, diswyddo a gwrando ar gwynion a nodir yn y 18fed paragraff hwn yn unol â'r gyfraith gyffredinol a chodau ymarfer statudol hyd nes y gwneir Ordinhadau.

19. Gall y Cyngor ddiwygio, ychwanegu at, neu ddiddymu'r Siarter hon drwy benderfyniad a basiwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor gan fwyafrif o ddim llai na thair rhan o bedair o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Bydd y cyfryw ddiwygiad, ychwanegiad neu ddiddymiad, pan ganiateir gennym Ni, Ein Hetifeddion neu Olynwyr yn y Cyfrin Gyngor, yn dod i rym fel y gweithredo'r cyfryw Siarter hon fel pe'i dyfarnwyd yn wreiddiol a hynny fel y'i diwygiwyd, yr ychwanegwyd ati neu y'i diddymwyd.

20. Ein Hewyllys a'n Dymuniad Brenhinol yw y dehonglir y cyfryw Siarter hon yn rhadlon ac ym mhob achos yn fwyaf ffafriol i'r Brifysgol ac er hyrwyddo amcanion y cyfryw Siarter hon.

YN DYSTIOLAETH o hynny yr Ydym wedi peri gwneud y rhain, Ein Llythrau, yn Agored.

TYSTIED Ein Hunain yn San Steffan ar y

dydd o

yn blwyddyn Ein Teyrnasiad.

BY WARRANT UNDER THE KING'S SIGN MANUAL

TRWY WARANT O DAN LOFNOD Y BRENIN